# Addewid Ad-daliad

Annwyl Gwsmer,

Rydym yn deall nad ydi pawb, trista'r sôn, yn gallu mynd i bob digwyddiad maen nhw'n codi tocyn iddo. Mae arnom eisiau i chi fod yn dawel eich meddwl, er bod yna amgylchiadau na dydi ein haddewid **ddim** yn eu cwmpasu. Ein haddewid ydi y byddwn yn rhoi ad-daliad i **chi** am unrhyw **archeb** heb ei ddefnyddio os ydych **chi** yn methu dod i'r **digwyddiad wedi'i archebu** oherwydd unrhyw un o'r amgylchiadau isod.

Gwasanaeth ychwanegol ydi'r addewid gynigiwn ni ac mae yn ôl eich dewis chi'n gyfangwbl. Addewid ydi hwn y rhown ad-daliad i **chi** o dan rai amgylchiadau cyfyngedig yn gyfnewid am ffi ychwanegol ar ben eich ffi archebu.

Nid yswiriant mo ein Haddewid Ad-daliad ac nid ydi'r Cynllun Iawndal Gwasanaethau Ariannol yn ei gwmpasu chwaith.

Gweinyddir yr addewid yma gan TicketPlan ar ein rhan ni. Cyfeiriwch unrhyw gwestiynau sydd gennych ynghylch yr addewid yma neu unrhyw ad-daliad atyn nhw yn y cyfeiriad isod. Rhoddir diffiniadau ar ddiwedd y ddogfen yma.

A bwrw bod y **digwyddiad wedi'i archebu** perthnasol heb ddigwydd a'ch bod yn rhoi rhybudd i ni ar ddu a gwyn, o fewn pedwar diwrnod ar ddeg (14) i elwa ar ein Haddewid Ad-daliad, eich bod am ganslo budd eich Addewid Ad-daliad, caiff yr addewid yma ei ganslo ac ad-dalir eich ffïoedd a dalwyd ynghlwm â'r addewid.

Cofiwch fod gofyn darparu pob adroddiad perthnasol yn Saesneg. Ni allwn ddelio ag unrhyw iaith arall.

Mae ein haddewid yn amodol ar gyfraith Lloegr.

## Ein Haddewid: Pa bryd y byddwn yn ad-dalu

**Heblaw am yr amodau isod dan y pennawd "*Pa bryd na fyddwn ni ddim yn ad-dalu*",** byddwn yn ad-dalu cost **eich** archeb **chi** os ydych **chi** yn methu dod i **ddigwyddiad wedi'i archebu** oherwydd:

- tarfu annisgwyl ar y **rhwydwaith cludiant cyhoeddus** na fuasai modd gwybod amdano'n rhesymol cyn dyddiad neu amser y **digwyddiad wedi'i archebu** a bwrw'ch bod yn gallu darparu hysbysiad swyddogol gan ddarparwr y gwasanaeth cludiant y bu oedi, canslo, methiant mecanyddol neu ddamwain mewn perthynas â'r **rhwydwaith cludiant cyhoeddus**;
- **eich** marw, neu **ddamwain**, neu **waeledd** sy'n golygu eich bod **chi** yn methu dod i **ddigwyddiad wedi'i archebu**;
- marw, **damwain** neu **waeledd** unrhyw aelod o'r **grŵp** oedd i fod i ddod i'r **digwyddiad wedi'i archebu** gyda **chi**, os ydyn nhw'r unig aelod arall o'r **grŵp**;
- marw, **damwain** neu **waeledd** unrhyw berson(au) yn y **grŵp** sydd hefyd yn aelod o'ch **teulu agos.**
- **damwain** neu **waeledd** aelod o'ch **teulu agos**;
- marw aelod o'ch **teulu agos** sydd heb fod yn rhan o'r **grŵp**, sy'n digwydd o fewn y pedair wythnos cyn y **digwyddiad wedi'i archebu**;
- beichiogi sy'n digwydd ar ôl archebu a lle byddwch **chi** yn esgor o fewn y pedair wythnos cyn y **digwyddiad wedi'i archebu**;
- beichiogi sy'n digwydd ar ôl archebu a lle bo'r **digwyddiad wedi'i archebu** o fewn pedair wythnos cyn dyddiad disgwyliedig esgor **eich** babi **chi**;
- methiant mecanyddol, **damwain**, tân neu ddwyn *en route* gerbyd preifat sy'n mynd â **chi** i'r **digwyddiad wedi'i archebu** a bwrw'ch bod yn darparu adroddiad gwasanaeth casglu cerbydau (AA, RAC neu eu tebyg), copi o fil trwsio garej neu dderbynneb rhannau, neu gadarnhad gan yswirwyr y cerbyd, atgyweirwyr y cerbyd neu'r heddlu;

- gwasanaeth rheithgor na chawsoch **chi** ddim gwybod amdano ar adeg **archebu** a bwrw'ch bod yn darparu'r gwahoddiad rheithgor gwreiddiol wedi'i ddyddio yn eich gwahodd **chi** i fod yn rheithiwr;
- bwrgleriaeth neu dân yn eich cartref **chi** yn yr wyth awr a deugain yn union cyn y **digwyddiad wedi'i archebu** yn galw am bresenoldeb y **gwasanaethau brys** a bwrw eich bod, ynglwm â'r fwrgleriaeth, yn darparu adroddiad yr heddlu gyda chyfeirnod y drosedd neu gadarnhad o bresenoldeb y **gwasanaethau brys** yn achos tân;
- eich gwysio **chi** i ymddangos mewn achos llys yn dyst na chawsoch **chi** wybod amdano ar adeg archebu, a bwrw'ch bod yn darparu'r gwŷs gwreiddiol wedi'i ddyddio yn gofyn i **chi** ymddangos yn y llys;
- **chithau** yn aelod o'r lluoedd arfog ac yn cael eich anfon dramor a/neu seibiant yn cael ei dynnu'n ôl yn annisgwyl na chawsoch **chi** ddim rhybudd ohono ar adeg **archebu** a bwrw'ch bod yn cyflwyno'r rhybudd canslo seibiant /hysbysiad teithio ar fyr rybudd gwreiddiol a'i wnelo â gwasanaeth milwrol;
- tywydd mawr lle cyhoeddodd Swyddfa'r Tywydd rybudd tywydd coch neu lle cyhoeddodd gwasanaeth yr Heddlu neu un o asiantaethau eraill y Llywodraeth rybudd penodol i beidio â theithio, a bwrw'ch bod yn darparu allbrint neu gip sgrîn o wefan Swyddfa'r Tywydd neu gadarnhad o Rybudd Heddlu i apiau tywydd.

## Pa bryd na fyddwn ni ddim yn ad-dalu?

Fyddwn ni **ddim** yn ad-dalu:

- lle bo unrhyw amgylchiadau sy'n eich nadu **chi** i ddod i **ddigwyddiad wedi'i archebu** y gallasech **chi** yn rhesymol fod yn gwybod amdanynt ar adeg **archebu**;
- os byddwch **chi** neu aelod o'r **grŵp wedi'i archebu** heb fod yn atebol yn feddygol i fynd i'r **digwyddiad wedi'i archebu** pan godoch **chi** yr Addewid Ad-daliad yma;
- os canslir y **digwyddiad wedi'i archebu**, neu roi'r gorau iddo, neu ei ohirio, neu ei gwtogi neu ei adleoli gan y trefnydd neu'r hyrwyddwr, ar unrhyw adeg cyn i **ni** brosesu ad-daliad;
- os nad ewch **chi** i **ddigwyddiad wedi'i archebu** heblaw am reswm sydd yn yr Addewid Ad-daliad yma;
- os na allwch **chi** ddarparu dogfennau cefnogi priodol, adroddiad **meddyg** i **ddamwain** neu **waeledd** neu dystysgrif marwolaeth lle mae'ch cais am ad-daliad oherwydd marwolaeth;
- lle bo **beichiogrwydd normal** yr unig reswm pam na allwch **chi** ddod i **ddigwyddiad wedi'i archebu,** ac eithrio beichiogi sy'n digwydd ar ôl y dyddiad prynu a lle bo naill ai:
    - y dyddiad esgor disgwyliedig o fewn pedair wythnos i'r **digwyddiad wedi'i archebu**;
    - rhoesoch **chi** enedigaeth o fewn y pedair wythnos cyn y **digwyddiad wedi'i archebu**;
- os rhwystrir **chi** rhag teithio i **ddigwyddiad wedi'i archebu** oherwydd tarfu ar y **rhwydwaith cludiant cyhoeddus** y gŵyr y cyhoedd amdano cyn y **digwyddiad wedi'i archebu**, er enghraifft streicio neu waith peirianyddol;
- os gallwch **chi** adennill unrhyw ran o'r **archeb**;
- os na wnaethoch **chi**, yn ein tyb rhesymol ni, lwfio digon o amser i deithio i **ddigwyddiad wedi'i archebu**;
- os cyflawnwch **chi** weithred droseddol sy'n nadu i **chi** ddod i **ddigwyddiad wedi'i archebu**;
- os gwnewch **chi** gais twyllodrus am ad-daliad neu gefnogi cais am ad-daliad drwy ddogfen, dyfais neu ddatganiad ffug neu dwyllodrus;
- os ydi'r canslo oherwydd methiant corfforol neu ariannol cludiant awyr neu oediadau oherwydd teithio mewn awyren;
- os rhwystrir **chi** rhag teithio i **ddigwyddiad wedi'i archebu** oherwydd brigo clefyd heintus a'r Llywodraeth neu unrhyw asiantaeth yn gweithio ar ran y Llywodraeth wedi gosod gwaharddiad teithio.

## Swm yr Ad-daliad

Os cyflawnir yr amodau uchod, byddwn yn ad-dalu i chi bris prynu, gan gynnwys unrhyw ffi archebu, y **digwyddiad wedi'i archebu**.

Fydd ein had-daliad **ddim** yn cynnwys teithio na chostau eraill cysylltiedig (oni bai bod costau teithio wedi'u cynnwys yn rhan o gyfanswm pris yr archeb, os felly byddwn yn ad-dalu swm y costau hynny sydd wedi'u cynnwys).

Fyddwn ni ddim yn ad-dalu unrhyw gostau yr ewch iddyn nhw'n cyflwyno neu'n darparu tystiolaeth i gefnogi eich cais am ad-daliad.

## Amodau Cyffredinol

Mae'r canlynol yn berthnasol i BOB cais am ad-daliad:

a) rhaid i **chi** wneud pob trefniant angenrheidiol i gyrraedd y digwyddiad mewn pryd a bod yn barod i roi prawf o hynny;
b) rhaid i **chi** ymorol am bopeth rhesymol i rwystro neu leihau unrhyw gais am ad-daliad neu'r swm i'w ad-dalu.

## Gofyn am Ad-daliad Gennym

Rhaid i **chi** naill ai fynd i **www.ticketplangroup.com/refund-application-form** a llenwi ffurflen gais am ad-daliad ar lein, neu anfon ebost aton **ni** yn **refunds@ticketplangroup.com** er mwyn gofyn am ffurflen gais am ad-daliad cyn gynted ag sy'n rhesymol bosib ar ôl dod i wybod am amgylchiadau allai beri i **chi** ofyn am ad-daliad.

Hwyrach y gofynnir i **chi** ddarparu'r canlynol ar eich traul eich hun:

- y **tocynnau** a'r talebau gwreiddiol heb eu defnyddio i bob rhan o'r **archeb –** fydd yna **ddim** ad-daliad oni bai eich bod **chi** yn dychwelyd unrhyw **docynnau** neu dalebau heb eu defnyddio oedd yn rhan o'r **archeb, neu dystiolaeth arall o docynnau heb eu defnyddio**;
- tystiolaeth arall fel y dywedir uchod; ac
- unrhyw dystiolaeth resymol dros ben y gallem **ni** ofyn amdani.

## Amddiffyn Data a Hysbysiad Preifatrwydd

Byddwn yn defnyddio eich data personol yn unol â deddfau amddiffyn data perthnasol a'n polisi preifatrwydd, y mae copi ohono i'w gael ar ein gwefan neu gallwch ofyn amdano o gysylltu â ni.

Rhannir Data Personol rowch chi pan fyddwch chi'n codi'r Addewid Ad-daliad â TicketPlan Limited. Os gwnewch chi gais dan yr Addewid Ad-daliad bydd gofyn i chi ddarparu data personol dros ben i TicketPlan Limited. Bydd TicketPlan Limited yn defnyddio eich data personol at ddiben gweinyddu eich cais dan yr Addewid Ad-daliad yn unol â deddfau amddiffyn data perthnasol a'i bolisi preifatrwydd, y mae copi ohono i'w weld yn www.ticketplangroup.com/privacy-policy.

## Diffiniadau

Mae gan y geiriau neu'r ymadroddion isod yr ystyr a ddangosir isod lle bynnag yr ymddangosan nhw mewn print du yn y ddogfen yma.

| | |
|---|---|
| damwain | Anaf corfforol a gadarnheir gan **feddyg** sy'n eich rhwystro **chi** rhag dod i'r **digwyddiad wedi'i archebu**. |
| archeb/digwyddiad wedi'i archebu | Y gwasanaeth(au) / digwyddiad(au) **/ tocyn(nau)** a drafodwyd â **ni** gennych **chi**. |
| meddyg | Ymarferwr meddygol cymwys sy'n:<br>– Gofrestredig â'r Cyngor Meddygol Cyffredinol ac sy'n feddyg yn y Deyrnas Unedig.<br>– Gofrestredig â'r awdurdod priodol ac sy'n feddyg yn y wlad lle'r ydych chi'n byw, os nad ydych **chi** yn byw yn y Deyrnas Unedig. |

| | |
|---|---|
| | Chewch **chi** ddim bod y **meddyg**, nac aelod o'r grŵp **wedi'i archebu** na'ch **teulu agos**. |
| gwasanaethau brys | Yr Heddlu, y Gwasanaeth Tân ac Achub neu Wasanaethau Meddygol Brys. |
| grŵp | Unrhyw nifer o bobl sydd wedi gwneud **archeb** â'r gwerthwr gydag Amddiffyniad Ad-daliad Archeb yn yr un gwerthiant. |
| gwaeledd | Anhwylder corfforol neu feddyliol a gadarnheir gan **feddyg** sy'n eich rhwystro **chi** rhag dod i'r **digwyddiad wedi'i archebu**. |
| teulu agos | **Eich** gŵr, **eich** gwraig, **eich** partner, **eich** partner sifil, rhiant, plentyn, nain neu daid, ŵyr neu wyres, brawd neu chwaer neu riant yng nghyfraith. |
| beichiogrwydd normal | Symptomau sydd fel arfer yn dod ynghlwm â beichiogrwydd (gan gynnwys beichiogrwydd lluosog) ac sydd fel arfer yn fân bethau neu dros dro (e.e. salwch bore, lludded etc.) sydd heb fod yn beryg meddygol i'r fam na'r babi. |
| rhwydwaith cludiant cyhoeddus | Unrhyw fodd cludiant cyhoeddus ar wahân i dacsis hur cyhoeddus wedi'i drwyddedu at ddefnydd y cyhoedd y bwriadadai'r cwsmer deithio arno i **ddigwyddiad wedi'i archebu**. |
| tocyn(nau) | **Tocyn** awdurdodedig na ellir ei ad-dalu a godwyd gan werthwr cydnabyddedig a pharchus lle codwyd Amddiffyniad Ad-daliad Archeb ar yr un pryd â chodi'r **tocyn(nau)**. |
| ni/ein | Y gwerthwr archebu y gwnaethoch **chi** yr archeb ag ef. |
| chi/eich | Rhywun wnaeth **archeb** ar ei ben ei hun neu'n rhan o **grŵp** gyda **ni**. |

**Addewid Ad-daliad TicketPlan 102022**